Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2023

## Adroddiad am lesiant pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth

**Medi 2024**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Crynodeb Gweithredol | 2 |
| Cyflwyniad | 5 |
| Sicrhau hawliau a hawlogaethau | 9 |
| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol | 13 |
| Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | 20 |
| Addysg, hyfforddiant a hamdden | 25 |
| Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol | 29 |
| Y cyfraniad a wneir i gymdeithas | 32 |
| Llesiant cymdeithasol ac economaidd | 35 |
| Addasrwydd llety preswyl | 38 |
| Y camau nesaf | 40 |
| Atodiad A. Ffynonellau Data | 41 |


OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48767, ISBN digidol 978-1-83625-483-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

Bu'r tair blynedd diwethaf yn gyfnod heb ei debyg, rhwng pandemig COVID-19, y rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae pobl o Fôn i Fynwy wedi wynebu heriau ac mae'r angen am gymorth mor uchel ag erioed. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi cryn bwyslais ar wella iechyd a llesiant y genedl.

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn pwysleisio pwysigrwydd llesiant. Mae'n pwysleisio'r angen i bobl fod yn bartneriaid cyfartal yn y gwaith o lunio eu gofal, a'r angen iddyn nhw gael llais a rheolaeth. Mae hefyd yn tanlinellu bod rhaid i'w llesiant fod yn ganolog i'r cymorth maen nhw'n ei dderbyn. Fodd bynnag, yn 2021-22 a 22-23 (y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad hwn) roedd Cymru yn dal i deimlo effeithiau pandemig COVID-19. Roedd pobl wedi'u hynysu a dim ond hyn a hyn o ofal a chymorth a oedd ar gael. Roedd y rheolau ynysu a oedd wedi cyfyngu ar y gofal a'r cymorth a oedd ar gael yn cael eu llacio. Er bod hyn wedi gwella'r gofal a'r cymorth y gellid eu cynnig, roedd pobl ledled Cymru yn parhau i fethu â chael mynediad at yr ystod lawn o ofal a chymorth a ragwelwyd yn wreiddiol yn y ddeddf.

Yn 2016, cyhoeddwyd y **Datganiad Llesiant** gennym a oedd yn disgrifio beth mae llesiant yn ei olygu i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad hwn yr un mor berthnasol nawr ag yr oedd wyth mlynedd yn ôl. Mae pawb eisiau cyflawni eu canlyniadau personol eu hunain, y rhai bach a'r rhai mawr, y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'r datganiad yn helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd, mewn ffordd well, er mwyn helpu unigolion i gyflawni eu canlyniadau.

Mae ein **Rhaglen Lywodraethu** yn cyflwyno ein blaenoriaethau ar gyfer y Senedd hon. Mae'n cynnwys y deg amcan llesiant hefyd. Rydym yn defnyddio'r rhain i wneud yn siŵr bod ein cyfraniad at gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu'n canolbwyntio ar gyflawni pob un o'r nodau llesiant. Byddwn yn gweithio i ddarparu cyfle cyfartal i bawb yng Nghymru i gyrraedd eu nodau a chyflawni eu canlyniadau.

Felly, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i fonitro iechyd a llesiant pawb yng Nghymru. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r data sydd gennym am lesiant pobl. Mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu gan yr anawsterau yng nghasgliad data 2020-21, ac mae rhai o'r casgliadau data wedi dod i ben. Er hynny, mae'n dal i ddangos gwahaniaethau pwysig rhwng pobl a'r sefyllfa ddymunol o ran llesiant y genedl.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canlyniadau cadarnhaol iawn. Er enghraifft, rhai'n ymwneud â chyfran uwch o bobl yn teimlo'n ddiogel, atgyfeiriadau ar gyfer diogelu a diwallu anghenion tai pobl sy'n derbyn gofal a chymorth. Rhywbeth pwysig a wna'r adroddiad yw nodi meysydd i'w gwella, er enghraifft, mynd i'r afael ag unigrwydd mewn oedolion a sicrhau bod lefelau archwiliadau deintyddol ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal yn dychwelyd i'w lefelau cyn y pandemig.

Mae cydnabod effeithiau parhaol COVID-19 yn gyd-destun hanfodol wrth adolygu'r adroddiad hwn: fe wnaeth y pandemig newid ymddygiad pobl a'r broses o hwyluso gwasanaethau a chymorth. Roedd pobl yn wynebu heriau ehangach hefyd, fel effeithiau uniongyrchol heintiau COVID-19 ar iechyd. Mae'n anochel bod y rhain wedi effeithio ar lawer o'r mesurau yr adroddir arnyn nhw yma. Mae hefyd yn bwysig cydnabod effeithiau'r argyfwng costau byw, sydd wedi effeithio ar ymddygiad a chanlyniadau pobl.

Ar ben hynny, er bod y pandemig wedi effeithio ar rai casgliadau, mae eraill wedi newid dros amser, tra bod rhai wedi dod yn amherthnasol. O ganlyniad, lle y byddem yn darparu cyfresi amser ar gyfer mesurau penodol fel arfer, efallai na fydd y rhain ar gael cyn y pandemig a/neu nid oes posibl cymharu'r data â data a gasglwyd yn flaenorol oherwydd newidiadau mewn methodoleg casglu. Yn ogystal, mae rhai casgliadau wedi dod i ben yn llwyr, ac felly mae'r dangosyddion cysylltiedig wedi dod i ben.

## Sicrhau hawliau a hawlogaethau

Ar y cyfan, mae'r darlun o safbwynt sicrhau hawliau a hawlogaethau pobl yng Nghymru yn 2023 yn un cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth a/neu gymorth fel gofalwyr di-dâl yn:

- ystyried bod y gofal a'r cymorth maen nhw wedi'i dderbyn yn ardderchog neu'n dda
- dweud bod eu gofal wedi'u helpu i gael ansawdd bywyd gwell
- dweud eu bod yn cael eu trin â pharch
- ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda
- cytuno eu bod wedi cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnyn nhw ei angen
- dweud eu bod yn teimlo'n rhan o benderfyniadau am y gofal a/neu'r cymorth maen nhw wedi'i dderbyn
- teimlo eu bod yn gallu rheoli eu bywyd, cymaint ag y gallan nhw.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod lle i wella eto o safbwynt hawliau a hawlogaethau. Er bod llawer o'r dangosyddion yn dangos canlyniadau tebyg iawn i flynyddoedd blaenorol, mae gostyngiad yn y ganran o bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda, ac mae hynny'n destun pryder.

## Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Nododd pobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth ar gyfer eu hanghenion gofal lai o hapusrwydd a boddhad â bywyd o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Gwelir canlyniad tebyg o ran iechyd corfforol, gyda bwlch amlwg rhwng cyfran yr oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn o'i gymharu â'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth. Y pryder mwyaf yw bod llawer llai o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth wedi nodi llesiant meddyliol uchel o'i gymharu â'r rhai nad oes ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth.

Mae lle i wella hefyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chymorth: yn 2021, cyfran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth a oedd â phroblemau iechyd meddwl oedd 16%, sef ffigur nad yw'n ddim gwell na thair blynedd yn ôl, ac er bod y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi cael y brechiadau a'r archwiliadau deintyddol diweddaraf, bu gostyngiad sylweddol mewn archwiliadau deintyddol ers 2020. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd effeithiau parhaus pandemig COVID-19 a'r heriau ychwanegol cysylltiedig a brofwyd gan wasanaethau iechyd a deintyddol yn ystod 2020-21.

## Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Bu cynnydd cyson yn nifer yr achosion o gam-drin domestig a throseddau rhywiol, dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2021, cafwyd gostyngiad pendant yn yr adroddiadau am ddigwyddiadau, ond cynyddodd hyn yn gyflym i uchafswm newydd yn 2022 a 2023.

Er gwaethaf hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel, a bu cynnydd bach yng nghanran yr oedolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel dros y pedair blynedd diwethaf.

Bu gostyngiad bach hefyd yng nghyfran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod ac sydd wedi'u hatgyfeirio am weithdrefnau diogelu fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. Yn olaf, mae cyfran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestrau amddiffyn plant wedi gostwng.

## Addysg, hyfforddiant a hamdden

Fe wnaeth COVID-19 amharu ar brosesau arholiadau yn 2020 a 2021, ac felly nid ydym yn adrodd ar ddata ynghylch cyrhaeddiad yn yr adroddiad hwn. Ar ben hynny, mae cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2022 wedi arwain at nifer o newidiadau i brosesau asesu ac, o ganlyniad i hynny, i'r broses o gasglu data ynghylch cyrhaeddiad addysgol. Felly, mae rhai o'r dangosyddion a ddefnyddir wedi newid neu wedi gorfod dod i ben hefyd. Mae gweddill y mesurau addysg, hyfforddiant a hamdden yn dangos darlun cymysg.

Roedd bron i dri chwarter y rhai a oedd yn gadael gofal wedi ymgymryd ag o leiaf tri mis yn olynol o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2020-21, ac mae gan bron pob oedolyn oedran gweithio o leiaf un cymhwyster, ac mae'n ymddangos bod hynny ar gynnydd hefyd. Hefyd yn gadarnhaol, mae cyflawni canlyniadau addysgol cyffredinol yn gwella, i fyny i 75% yn 2021-22.

Fodd bynnag, mae bwlch sylweddol rhwng pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw.

## Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

Mae'r darlun yn ymwneud â pherthnasoedd domestig, teuluol a phersonol yn gadarnhaol ar y cyfan yn 2023: mae mwy o bobl yn dweud eu bod yn meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

Fodd bynnag, mae'n amlwg bod ymdeimlad o unigrwydd yn uwch ymhlith y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth na'r boblogaeth gyffredinol. Nid oes data newydd ar gael yn yr adroddiad hwn ar gyfer dau o'r pedwar dangosydd yn y maes hwn.

## Y cyfraniad a wneir i gymdeithas

Ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn y maes hwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Er bod bron i ddwy ran o dair o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn dweud bod pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil, roedd hyn yn llawer is na'r holl grwpiau eraill. Gwelir canlyniad tebyg gyda chanran y bobl ym mhob grŵp sy'n gwirfoddoli, ac eithrio o blith yr holl grwpiau, gofalwyr di-dâl yw'r rhai mwyaf tebygol o wirfoddoli.

Yn olaf, o ran sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned, i bobl ifanc neu i bobl anabl, nid yw'r ffigurau hyn wedi newid rhyw lawer ers 2022.

## Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Mae cyfradd cyflogaeth oedolion dros 50 oed wedi bod yn gostwng ychydig dros y blynyddoedd diwethaf. Bu cynnydd hefyd yng nghanran yr oedolion ifanc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cyfradd cyflogaeth oedolion ag anableddau wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig hefyd, ac mae tua hanner ohonyn nhw mewn cyflogaeth.

Yn gysylltiedig â hyn, o bosibl, mae cyfran y bobl sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n byw mewn aelwydydd difreintiedig dros ddwywaith yn fwy na phobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth, sef tua thri o bob deg o bobl.

Mae'n ymddangos bod gofalwyr di-dâl yn ymdopi'n llawer gwell na phobl ag anghenion gofal, gyda llai o ofalwyr di-dâl mewn amddifadedd materol na phobl ag anghenion gofal.

## Addasrwydd llety preswyl

Bu gwelliant sylweddol yn ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru dros y deng mlynedd diwethaf, ac yn 2021-22 adroddwyd bod pob tŷ cymdeithasol bellach yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn ogystal â hyn, dywedodd bron pawb sy'n derbyn gofal a chymorth, neu ofalwyr di-dâl fod eu llety yn addas ar gyfer eu hanghenion yn 2022-23.

Fodd bynnag, mae lle i wella: roedd cyfran y bobl a ddywedodd fod eu llety yn addas ar gyfer eu hanghenion yn parhau i fod yn is ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth na'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth.



# Cyflwyniad

## Cefndir

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol. **Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu:**

- Roedd hwn yn amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru.
- Fframwaith ar gyfer ymateb i'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y degawd nesaf.
- Darparu system sy'n canolbwyntio ar lesiant:
  - pobl sy'n derbyn gofal a/neu gymorth
  - gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth (er enghraifft, seibiannau byr neu ryddhad).

Mae deddfwriaeth yn cefnogi Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru. Daeth **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** ('y Ddeddf') i rym ym mis Ebrill 2016.

**Mae'r Ddeddf yn cynnwys un ar ddeg rhan:**

- **Rhan 1** – Cyflwyniad
- **Rhan 2** – Swyddogaethau cyffredinol
- **Rhan 3** – Asesu anghenion unigolion
- **Rhan 4** – Diwallu anghenion
- **Rhan 5** – Codi ffioedd ac asesiadau ariannol
- **Rhan 6** – Plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya
- **Rhan 7** – Diogelu
- **Rhan 8** – Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Rhan 9** – Cydweithrediad a phartneriaeth
- **Rhan 10** – Cwynion, sylwadau a gwasanaethau eirioli
- **Rhan 11** – Amrywiol a chyffredinol

Mae Rheoliadau, Codau Ymarfer a Chanllawiau Statudol yn ategu'r Ddeddf. Mae gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru ddyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae dyletswydd arnyn nhw i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Mae'r Ddeddf wedi newid y sector gwasanaethau cymdeithasol:

- fel bod gan bobl reolaeth dros y cymorth sydd ei angen arnyn nhw
- fel bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth fel partneriaid cyfartal
- fel bod asesiad cymesur yn canolbwyntio ar yr unigolyn
- fel bod gan ofalwyr di-dâl hawl gyfartal i gael asesiad ar gyfer cymorth i'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw
- fel bod gan bawb fynediad rhwydd at gyngor a gwybodaeth
- fel bod pwerau i ddiogelu pobl yn gryfach
- fel bod pwyslais ar ddull ataliol o ddiwallu anghenion gofal a chymorth
- fel bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn dod at ei gilydd mewn partneriaethau statudol newydd. Mae'r rhain yn sbarduno integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

## Egwyddorion y Ddeddf

- Mae'r Ddeddf yn cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i sicrhau llesiant.
- Mae pobl yn ganolog i'r system newydd drwy roi llais cyfartal iddyn nhw am y cymorth maen nhw'n ei dderbyn.
- Mae partneriaeth a chydweithrediad yn llywio darpariaeth gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau'n hyrwyddo atal; bydd hyn yn atal angen rhag gwaethygu. Bydd gwasanaethau'n sicrhau bod y cymorth cywir ar gael ar yr adeg gywir.

Mae'r Ddeddf yn trawsnewid gofal cymdeithasol yng Nghymru a'i nod yw gwella llesiant pobl. Bydd gwasanaethau gofal a chymorth ledled Cymru yn canolbwyntio ar:

- y canlyniadau llesiant mae pobl sydd angen gofal a chymorth yn dymuno eu cyflawni
- y canlyniadau llesiant mae gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth yn dymuno eu cyflawni
- hawliau a chyfrifoldebau pobl.

## Mesur llesiant cenedlaethol

Mae'r **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol**:

- yn disgrifio llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth
- yn bodloni gofynion Rhan 2 o Adran 8 o'r Ddeddf
- yn adeiladu ar y canlyniadau llesiant cenedlaethol o'r **datganiad llesiant**
- yn cynnwys dangosyddion canlyniadau cenedlaethol sy'n ymwneud ag wyth agwedd ar lesiant.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- sicrhau hawliau a hawlogaethau
- iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol
- amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- addysg, hyfforddiant a hamdden
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol
- y cyfraniad a wneir i gymdeithas
- llesiant cymdeithasol ac economaidd
- addasrwydd llety preswyl.

Mae'r **dangosyddion canlyniadau cenedlaethol** yn dangos a yw'r canlyniadau llesiant cenedlaethol yn cael eu cyflawni. Maen nhw'n ffordd o fesur llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Cafodd y **dangosyddion canlyniadau cenedlaethol** eu pennu gan Lywodraeth Cymru. Cydweithiodd Llywodraeth Cymru ag amrywiaeth eang o randdeiliaid o bob rhan o Gymru. Mae rhestr lawn o'r dangosyddion, eu ffynhonnell a'r data diweddaraf i'w gweld yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Prif amcanion y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yw:

- **Hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth yng Nghymru.**
  Bydd newid pwyslais y ddarpariaeth, i hyrwyddo llesiant, yn rhoi ffocws i'r holl wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau statudol, y trydydd sector a'r sector annibynnol. Bydd gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo llesiant mewn perthynas â gofal a chymorth. Bydd gwasanaethau'n gweithio gyda phobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl er mwyn:
  - deall yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw
  - gweithio mewn partneriaeth i adeiladu ar gryfderau a galluoedd pobl. Bydd hyn yn galluogi pobl i gynnal lefel briodol o annibyniaeth. Efallai y bydd angen lefelau priodol o ofal a chymorth ar bobl i aros yn annibynnol.
- **Dangos a yw gwasanaethau'n gwella canlyniadau llesiant i bobl sydd angen gofal a/neu gymorth. Bydd yn gwneud hyn gan ddefnyddio dangosyddion cyson y gellir eu cymharu.**
  Bydd hyn yn caniatáu i'r sector farnu ei berfformiad. Bydd yn tynnu sylw at gamau sydd eu hangen i wella llesiant pobl. Bydd yn gwneud hyn yn hytrach na chanolbwyntio ar brosesau'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd y fframwaith canlyniadau cenedlaethol yn nodi blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Bydd yn nodi arferion gorau a'r adnoddau a'r polisïau sydd eu hangen hefyd.
- **Disgrifio'r canlyniadau llesiant cenedlaethol ar gyfer pobl sydd angen gofal a/neu gymorth. Dyma'r canlyniadau y dylai pobl ddisgwyl eu cyflawni er mwyn byw bywydau bodlon.**
  Bydd hyn yn rhoi mwy o lais a mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau. Bydd hyn yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Bydd hyn yn sicrhau bod pobl yn cyfrannu at wella eu llesiant eu hunain. Bydd canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant pobl yn arwain at brofiadau a gwasanaethau gwell.
- **Mesur a yw Cymru yn cyrraedd y nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Mae saith nod llesiant yn y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru fwy cyfartal a Chymru iachach. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Nod y Ddeddf yw gwneud hyn nawr ac yn y dyfodol.

## Cysylltiadau â fframweithiau eraill

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn yn cysylltu'n agos â fframweithiau canlyniadau eraill hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys fframwaith y GIG a'r **Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd**. Mae gorgyffwrdd uniongyrchol â rhai dangosyddion sy'n cael eu rhannu ar draws y fframweithiau hyn. Mae rhai dangosyddion sy'n ategu rhai eraill. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gysoni'r fframweithiau hyn ymhellach fel yr amlinellir yn **Cymru Iachach**.

Un arall yw **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r fframwaith perfformiad a gwella ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru**. Daeth hwn i rym ym mis Ebrill 2020. Mae'n edrych ar dystiolaeth o ddarparu gofal a chymorth, a chymorth i ofalwyr di-dâl ar hyd a lled Cymru. Mae'n defnyddio tystiolaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol o Fôn i Fynwy.

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r dystiolaeth o adroddiadau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn cyfrannu at sylfaen dystiolaeth fwy ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys data a gasglwyd, adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol a gofynion eraill, megis **Asesiadau o Anghenion Poblogaethau**. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth hon i nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella. Bydd hyn yn cynnig dealltwriaeth o effaith gofal a chymorth ar fywydau pobl.

Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys data hyd at 31 Mawrth 2023, lle bo modd. Lle nad yw hyn yn bosibl, bydd y data a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn cael eu cynnwys. Fe gyhoeddon ni adroddiad ddiwethaf yn 2022.

### Ansawdd a ffynonellau data

Mae'r manylion am y ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lunio'r adroddiad hwn, a'u hansawdd, ar gael yn yr atodiadau ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae pedwar categori o bobl yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn:

1. **Pobl ag anghenion gofal, sydd wedi nodi eu bod yn derbyn gofal a chymorth.**
2. **Pobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth.**
3. **Pobl sydd â chyfrifoldebau fel gofalwyr di-dâl.**
4. **Pobl nad ydyn nhw'n ofalwyr di-dâl.**

Nid yw'r categorïau hyn yn gwbl ar wahân i'w gilydd. Efallai fod rhai unigolion yn derbyn gofal a chymorth a bod ganddyn nhw gyfrifoldebau gofalu eu hunain hefyd, a gall unigolion nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth fod yn ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth neu beidio.

Arolwg o oedolion mewn aelwydydd preifat yw Arolwg Cenedlaethol Cymru. Felly, nid yw plant o dan 16 oed wedi'u cynnwys. Hefyd, nid yw oedolion sy'n drigolion hirdymor mewn cartrefi gofal wedi'u cynnwys.

Mae hyn yn golygu nad yw cyfran sylweddol o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

Sylwer, ni ellir cymharu data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2020-21 ymlaen yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol oherwydd newid yn y dull o gynnal arolygon a ddefnyddir gan Arolwg Cenedlaethol Cymru oherwydd COVID-19. Yn flaenorol, cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru wyneb yn wyneb. O 2020-21 ymlaen, newidiodd yr arolwg i ddull o gynnal arolygon dros y ffôn ac ar-lein. Yn ogystal, newidiodd y cwestiynau a ddefnyddiwyd ar gyfer pennu pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr sy'n derbyn cymorth hefyd. Felly, efallai na fyddan nhw'n gymharol. Fodd bynnag, mae data ar gyfer 2018-19 wedi'u darparu at ddibenion cyfeirio.

## Cydgyfrifoldeb iechyd a gofal cymdeithasol

Mae gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn rhannu'r cyfrifoldeb am rai eitemau yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol. Bydd yr eitemau data hyn yn cael eu cynnwys yn y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sydd ar ddod. Nid ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn adroddiad y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol mwyach.

Y dangosyddion nad ydyn nhw'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn mwyach yw:

13. **Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu ragor o ymddygiadau ffordd iach o fyw (ddim yn ysmygu, pwysau iach, bwyta pum dogn o ffrwythau neu lysiau bob dydd, peidio ag yfed mwy na'r canllawiau a dilyn y canllawiau gweithgarwch corfforol).**
14. **Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2500 gram.**
18. **Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth.**
19. **Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun.**
44. **Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig.**


Yn ogystal, gall y Fframwaith Canlyniadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnwys mesurau ychwanegol sy'n gysylltiedig â mesurau tebyg sydd yn yr adroddiad hwn.

# Sicrhau hawliau a hawlogaethau


Mae gan bawb hawl i gael llais ac i gael eu clywed. Dylai pobl gael rheolaeth go iawn dros eu bywydau beunyddiol. Mae hawliau pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth, yn ganolog i Ddeddf 2014. Mae'r datganiad llesiant hwn yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwnnw.

Mae'r prif ganlyniadau llesiant yn cynnwys helpu pobl i fod â rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Mae'n golygu helpu pobl i wneud penderfyniadau am eu gofal a/neu gymorth hefyd.


**Canran y bobl a'r gofalwyr a oedd yn derbyn cymorth ac a oedd yn cytuno ei fod wedi'u helpu i gael ansawdd bywyd gwell.**




**Canran y bobl a/neu'r gofalwyr a oedd yn cytuno eu bod yn gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallen nhw.**




**Pobl a oedd yn derbyn cymorth ac a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.**



## Dangosyddion Canlyniadau

1. **Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maen nhw wedi'i dderbyn yn ardderchog neu'n dda**
2. **Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth**
3. **Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch**
4. **Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda**
5. **Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnyn nhw ei angen**
6. **Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallan nhw**
7. **Canran y bobl a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth**
8. **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd**
9. **Canran yr oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n derbyn taliadau uniongyrchol**

### 1. Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maen nhw wedi'i dderbyn yn ardderchog neu'n dda

Rhaid i bobl a gofalwyr di-dâl dderbyn gwasanaethau gofal a chymorth o'r radd flaenaf er mwyn gallu:

- gwella eu llesiant
- byw'n annibynnol
- cyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Yn 2022-23, roedd 80% o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn dweud ei fod naill ai'n ardderchog neu'n dda a 79% o'r gofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth o'r farn eu bod wedi derbyn cymorth ardderchog neu dda.

Mae hyn yn debyg i flynyddoedd blaenorol lle'r oedd y ffigur hwn yn 80% yn 2020-21 ac yn 77% yn 2018-19, ac i ofalwyr di-dâl a dderbyniodd gymorth, roedd hefyd yn 80% yn 2020-21 ac yn 66% yn 2018-19.

### 2. Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth

Gofynnwyd i bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth a yw gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u helpu i gael ansawdd bywyd gwell.

Yn 2022-23, roedd 77% o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth a 66% o ofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth yn cytuno ei fod wedi'u helpu i gael ansawdd bywyd gwell.

Mae hyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol. I bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, roedd y canlyniadau yn 80% yn 2020-21 ac yn 79% yn 2018-19. Ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, roedd 73% yn cytuno ei fod wedi'u helpu i gael ansawdd bywyd gwell yn 2020-21, ac roedd 67% yn cytuno â hynny yn 2018-19.

### 3. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch

Mae llesiant pobl a'u canlyniadau llesiant personol yn gwella:

- pan maen nhw'n cael eu trin â pharch ac urddas
- pan maen nhw'n cael y gofal/a neu'r cymorth priodol
- pan maen nhw'n rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- pan maen nhw'n cael cymorth i fyw'n annibynnol.

O'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn 2022-23, roedd 89% yn teimlo bod pobl yn eu trin â pharch ac roedd 86% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth yn teimlo bod pobl yn eu trin â pharch.

Mae hyn yn debyg i'r blynyddoedd cofnodi blaenorol. Yn 2020-21, o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, roedd 92% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, ac 86% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, yn teimlo bod pobl yn eu trin â pharch.

### 4. Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda

Gofynnwyd i bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a dderbyniodd gymorth i roi sgôr i'r bobl a oedd yn eu helpu, yn gofalu amdanyn nhw neu'n eu cynorthwyo'n uniongyrchol.

Yn 2022-23, roedd 73% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth a 70% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth yn ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda — gostyngiad sylweddol o 86% ac 85% yn y drefn honno yn 2020-21 ac 89% a 78% yn y drefn honno yn 2018-19.

Yr un mor bwysig, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, mae cyfran nodedig o bobl yn nodi bod eu gofal a'u cymorth yn wael neu'n wael iawn. Mae hyn yn wir am ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, lle nododd 14% ei fod yn wael neu'n wael iawn, o'i gymharu â 9% yn 2020-21 a 6% yn 2018-19.

### 5. Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnyn nhw ei angen

Mae pobl angen gwybodaeth amserol a hygyrch i wneud penderfyniadau gwybodus am eu llesiant. Dylai gwybodaeth a chyngor fod ar gael ar yr adeg iawn yn y llefydd iawn. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth hygyrch am ofal a chymorth.

Gofynnwyd i bobl a oedd wedi derbyn gofal a chymorth a gofalwyr di-dâl a oedd wedi derbyn cymorth a oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad 'wrth dderbyn gofal a chymorth yn y 12 mis diwethaf, roedden nhw wedi cael yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnyn nhw ei angen'.

Roedd y mwyafrif o'r grwpiau a dderbyniodd gymorth yn 2022-23 yn cytuno: 81% o'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a 74% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth.

Mae cyfran y bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a gafodd yr wybodaeth gywir am gyngor wedi bod yn sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf: 82% yn 2020-21 a 79% yn 2018-19. Ond, mae'r ffigurau'n fwy amrywiol ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, gydag 80% yn 2020-21 a 68% yn 2018-19.

### 6. Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallan nhw

"Llais a rheolaeth" yw un o egwyddorion craidd Deddf 2014, a'i nod yw rhoi'r unigolyn, gan gynnwys gofalwyr di-dâl, a'i anghenion wrth wraidd ei ofal i'w alluogi a/neu ei rymuso i lunio'r canlyniadau sy'n caniatáu iddo sicrhau ymdeimlad o lesiant ac ansawdd bywyd da o ran y pethau sydd bwysicaf iddo. Mae cael eich llais wedi'i glywed a rhywun yn gwrando arnoch chi, a chael rheolaeth dros fywyd bob dydd yn cael ei ystyried yn hawl sylfaenol.

Yn 2022-23, dywedodd 74% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac 86% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallan nhw. Fodd bynnag, mae hyn yn cyferbynnu â 92% ar gyfer pobl nad oedden nhw wedi derbyn gofal na chymorth.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21. Yn 2018-19, cytunodd 66% o'r bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a 78% o ofalwyr a dderbyniodd gymorth eu bod yn gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallan nhw, sy'n is na'r hyn a adroddwyd yn 2022-23.

### 7. Canran y bobl a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth

Mae'n rhaid i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth fod yn bartneriaid cyfartal yn eu gofal. Mae hyn yn cynnwys cynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Yr unigolion eu hunain sy'n gwybod beth sydd orau iddyn nhw. Mae Deddf 2014 yn rhoi'r un hawliau cyfreithiol i ofalwyr di-dâl yng Nghymru ag i'r rhai maen nhw'n gofalu amdanyn nhw.

Yn 2022-23, roedd 84% o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth ac 82% o'r gofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth yn teimlo eu bod nhw'n rhan o benderfyniadau am eu gofal a chymorth.

Mae'r canlyniad hwn yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol, sef 80% o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth yn 2020-21 a 2018-19, ac 80% yn 2020-21, a 78% yn 2018-19, o ofalwyr di-dâl a dderbyniodd gymorth a oedd yn teimlo eu bod nhw'n rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth.

### 8. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol. Maen nhw'n darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru.

Mae sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i gefnogi lles teuluoedd a phlant. Gall y rhain gynnwys:

- darpariaeth cyn ysgol
- canolfannau lleol sy'n darparu gwasanaethau
- gwasanaethau mabwysiadu a maethu
- sefydliadau hawliau plant
- gwasanaethau i blant anabl.

Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 9.38% o sefydliadau gwirfoddol yn ymwneud â gweithgareddau plant a theuluoedd. Mae hyn ychydig yn is na'r hyn a ganfuwyd ym mis Gorffennaf 2022, lle'r oedd 9.56% o sefydliadau gwirfoddol yn ymwneud â gweithgareddau plant a theuluoedd.

Ciplun o ddata mis Gorffennaf 2023 yw hwn, felly efallai na fydd yn adlewyrchu'r data a gedwir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) ar unrhyw adeg arall.

### 9. Canran yr oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n derbyn taliadau uniongyrchol

Mae taliadau uniongyrchol yn caniatáu i bobl brynu'r gofal a/neu'r cymorth sydd eu hangen arnyn nhw, am ragor o wybodaeth gweler y canllaw hwn ar daliadau uniongyrchol yng Nghymru. Awdurdodau lleol sy'n darparu'r arian i oedolion sydd angen gofal a/neu gymorth. Dyma un ffordd y gall unigolion reoli'r ffordd y mae eu hanghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu.


Yn 2021-22, defnyddiwyd taliad uniongyrchol i ddiwallu anghenion 11.1% o oedolion â chynllun gofal a chymorth ar 31 Mawrth. Er bod hyn ychydig yn is na'r 11.4% a welwyd yn 2020-21, mewn gwirionedd derbyniodd tua 350 o bobl ychwanegol daliadau uniongyrchol yn 2021-22 o'i gymarhau ag yn 2020-21.

# Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

Mae angen iechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol da arnom i fwynhau ansawdd bywyd da. Mae hyn yn wir am bobl sydd angen gofal a chymorth, ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae’r datganiad llesiant hwn yn cydnabod hyn. Mae bod yn iach ac yn egnïol yn gallu caniatáu i blant ddatblygu i’w llawn botensial. Mae’n lleihau’r tebygolrwydd y byddan nhw angen cymorth gan wasanaethau gofal a chymorth yn ddiweddarach yn eu bywydau. I oedolion, mae mwynhau iechyd a llesiant corfforol ac emosiynol da yn gallu eu helpu i gadw eu hannibyniaeth. Drwy gymryd rhan yn eu cymunedau, maen nhw’n llai tebygol o gael eu hynysu.

Mae sawl ffactor yn cyfrannu at iechyd meddwl a llesiant emosiynol. Er mwyn gwella llesiant unigolion, rhaid i wasanaethau weithio mewn modd cyfannol. Mae angen i wasanaethau weithio gyda’r unigolyn ac edrych ar ei fywyd yn ei gyfanrwydd. Drwy gydweithio, gallan nhw helpu’r unigolyn i gyflawni’r hyn sy’n bwysig iddo.

**Pobl a adroddodd sgoriau uchel o ran boddhad â bywyd.**



## Dangosyddion Canlyniadau

10. **Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel**
11. **Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran boddhad â bywyd**
12. **Canran y bobl sydd â llesiant meddyliol uchel**
15. **Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl**
16. **Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf**
17. **Canran y plant 5 oed a hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf**
20. **Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda**

### 10. Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel

Pan ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022-23, nododd 56% o'r bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a 74% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd. Mae hyn yn cymharu â 77% o'r rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr neu bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth.

Mae hyn yn debyg iawn i 2020-21, lle'r oedd 56% o'r bobl a dderbyniodd ofal a chymorth, 72% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, 75% o'r rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr a 76% o'r bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth yn nodi lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd.

Fodd bynnag, mae hyn ychydig yn is na 2018-19, lle'r oedd 62% o'r bobl a dderbyniodd ofal a chymorth, 75% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, 78% o'r rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr a phobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth yn nodi lefelau uchel neu uchel iawn o hapusrwydd.

### 11. Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran boddhad â bywyd

Roedd gan 55% o'r bobl a dderbyniodd ofal a chymorth yn 2022-23 sgoriau uchel neu uchel iawn o ran boddhad â bywyd, mae hyn yn cymharu ag 82% o bobl heb ofal a chymorth a allai gynnwys gofalwyr sy'n derbyn cymorth. Yn yr un modd, roedd gan 81% o ofalwyr di-dâl a dderbyniodd gymorth sgoriau uchel neu uchel iawn o ran boddhad â bywyd, ychydig yn uwch na'r cyfrannau a adroddwyd gan bobl nad oedden nhw'n ofalwyr, sef 80%.

Roedd y cyfrannau a adroddwyd yn 2022-23 yn uwch na'r rhai yn 2020-21, lle'r oedd gan 52% o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth, 77% o bobl heb ofal a chymorth, 73% o ofalwyr di-dâl a dderbyniodd gymorth a 77% o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr sgoriau uchel neu uchel iawn o ran boddhad â bywyd.

Roedd y bwlch hwn yn y sgoriau o ran boddhad â bywyd rhwng pobl sy'n derbyn gofal a chymorth a grwpiau eraill i'w weld yn 2018-19 hefyd. Roedd gan 62% o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth lefelau uchel neu uchel iawn o foddhad o'i gymharu â 77% o ofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn gofal. Roedd gan y mwyafrif helaeth o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr a phobl nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth sgoriau uchel neu uchel iawn – 83% ac 84% yn y drefn honno.

## 12. Canran y bobl sydd â llesiant meddyliol uchel

Cafodd y **Warwick-Edinburgh Mental Well-Being Scale** (WEMWBS) ei chynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol i roi gwybodaeth am lesiant meddyliol. Gofynnwyd cyfres o ddatganiadau i'r ymatebwyr a rhoddwyd sgôr o rhwng 14 (y llesiant meddyliol isaf) a 70 (yr uchaf) iddyn nhw yn seiliedig ar eu hatebion. At ddibenion dadansoddi, fe wnaethon ni grwpio'r sgoriau hyn fel a ganlyn:

- Llesiant meddyliol is na'r cyfartaledd: sgôr o 14 i 44.
- Llesiant cyfartalog: sgôr o 45 i 57.
- Llesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd: sgôr o 58 i 70.

Yn 2022-23, nododd llai na 5% o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth lesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd, o'i gymharu â 14% ar gyfer pobl heb anghenion gofal a chymorth. Ar gyfer gofalwyr di-dâl, nododd 13% lesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd, o'i gymharu â 14% eto ar gyfer y rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21. Roedd adroddiadau'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol blaenorol yn darparu canlyniadau sylweddol uwch, gydag 16% o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a 25% o ofalwyr a oedd yn derbyn cymorth yn nodi llesiant meddyliol uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, gall hyn fod oherwydd y newid mewn methodoleg ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru a gyflwynwyd rhwng 2018-19 a 2020-21.




## 15. Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl

Mae'r cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth yn cofnodi nifer y plant dros 10 oed sy'n wynebu anawsterau datblygu emosiynol neu ymddygiadol.

Mae'r data diweddaraf yn cwmpasu 2018 i 2021. Mae Ffigur 1 yn dangos bod gan 16.1% o'r 8,685 o blant a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2021 (lle'r oedd gwybodaeth iechyd meddwl ar gael), broblemau iechyd meddwl.

Cyrhaeddodd canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth a oedd â phroblemau iechyd meddwl uchafbwynt yn 2019 ac roedd ar ei hisaf yn 2020. O'r 8,460 o blant a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2020, roedd gan 14.0% broblemau iechyd meddwl. Roedd hyn yn is na'r uchafbwynt yn 2019 gydag 16.5% o 8,215 o ymatebion ac yn is nag yn 2018 gydag 14.2% o 7,950 o ymatebion.

**Ffigur 1: Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl yn 2018-21.**




*Ffynhonnell:* ***Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth***

Noder nad oedd gwybodaeth iechyd meddwl ar gael yn achos ychydig o blant a oedd yn derbyn gofal a chymorth.

Mae'r cyfrifoldeb am yr eitem ddata hon yn cael ei rannu rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. O ddata sy'n ymwneud â 2023 bydd yr eitem hon yn newid yn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol i gofnodi canran y plant sy'n derbyn gofal sydd â phroblemau iechyd meddwl.


### 16. Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf

Wrth lunio cynllun iechyd ar gyfer plant, mae'n ofynnol i'r awdurdodau cyfrifol sicrhau bod y plentyn yn cael gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw frechiadau angenrheidiol ac a argymhellir yn benodol ac unrhyw sylw meddygol a deintyddol angenrheidiol.

Yn 2021, roedd 88.3% o'r holl blant a oedd yn derbyn gofal a chymorth wedi cael y brechiadau diweddaraf; darparwyd gwybodaeth am frechiadau ar gyfer 96.1% o blant 5 oed a hŷn.

Mae hyn yn parhau â'r duedd ar i fyny dros y pedair blynedd diwethaf. Yn 2020, roedd 88.8% o'r holl blant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi derbyn y brechiadau diweddaraf, a oedd yn uwch na'r ddwy flynedd flaenorol, gweler Ffigur 2.

**Ffigur 2: Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf yn 2018-21.**




*Ffynhonnell:* ***Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth***


### 17. Canran y plant 5 oed a hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf

Yn 2021, roedd 58.5% o'r holl blant 5 oed a hŷn a oedd yn derbyn gofal a chymorth wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf; roedd statws archwiliad deintyddol ar gael ar gyfer 89.4% o blant 5 oed a hŷn a oedd yn derbyn gofal a chymorth.

Yn 2020, roedd 77.9% o'r holl blant 5 oed a hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf, sy'n sylweddol uwch na'r hyn a nodwyd yn 2021. Yn yr un modd, roedd y canlyniadau ar gyfer 2018 a 2019 yn sylweddol uwch na'r canlyniadau ar gyfer 2021, gweler Ffigur 3.

Fe wnaeth gwasanaethau deintyddol wynebu tarfu difrifol yn ystod y pandemig, o ganlyniad i fesurau iechyd cyhoeddus angenrheidiol i amddiffyn staff a chleifion – gan gynnwys gofynion o ran rheoli heintiau, cadw pellter corfforol, a chyfarpar diogelu personol (PPE) gwell – a olygodd nad oedd modd 'gweld' cymaint o bobl mewn sesiwn glinigol. Gall hyn esbonio'r gwahaniaeth yn y canlyniadau rhwng 2020 a 2021.

**Ffigur 3: Canran y plant 5 oed a hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf.**




*Ffynhonnell:* ***Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth***

## 20. Canran yr oedolion sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda iawn neu'n dda

Dim ond 26% o'r bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2022-23 a nododd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn, mae hyn yn cymharu â 71% o bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth. Roedd canran y gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth a ddywedodd fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn debyg i bobl nad ydyn nhw'n ofalwyr, 67% a 69% yn y drefn honno.

Roedd y canlyniadau yn 2022-23 yn is na'r rhai a adroddwyd yn 2020-21, lle nododd 36% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, 76% o bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth, 74% o ofalwyr di-dâl a 75% o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr fod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn.

Roedd canlyniadau 2022-23 yn is na'r blynyddoedd blaenorol hefyd, gyda 31% o bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2018-19 yn dweud bod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn. Yn yr un modd, ar gyfer gofalwyr di-dâl, dywedodd 71% yn 2018-19 fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn.



# Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod

Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig. Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel a chael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau'r trefniadau diogelu presennol ar gyfer plant. Mae wedi cyflwyno dyletswydd i asiantaethau (e.e. GIG Cymru ) roi gwybod am sefyllfaoedd lle mae oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

Mae helpu unigolion i amddiffyn y rhai sy'n bwysig iddyn nhw yn ganlyniad llesiant pwysig hefyd. Er enghraifft, drwy addysgu pobl i adnabod arwyddion a risgiau cam-drin ac esgeulustod.

Gall teimlo'n ddiogel mewn mannau cyhoeddus gynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn mynd allan. Byddai hyn yn golygu eu bod yn mwynhau eu cymuned leol ac yn teimlo ymdeimlad o berthyn. Yn ei dro, mae hyn yn lleihau ynysigrwydd cymdeithasol.

---

**Oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.**

**Wedi'u hatgyfeirio fwy nag unwaith am yr un categori**

2020/2021: 14.8%

2021/2022: 12.6%

2.2%

**Wedi'u hatgyfeirio fwy nag unwaith am wahanol gategorïau**

2020/2021: 19.8%

2021/2022: 15.8%

4%

## Dangosyddion Canlyniadau

**21. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel**
**22. Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol**
**23. Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig**
**24. Nifer y troseddau rhywiol**
**25. Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn**

### 21. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel

Mae'r datganiad yn cydnabod bod teimlo'n ddiogel yn ganlyniad llesiant pwysig. Yn 2022-23, dywedodd 82% o'r bobl sy'n derbyn gofal a chymorth eu bod yn teimlo'n ddiogel. Ar gyfer gofalwyr di-dâl, mae hyn yn cynyddu i 90%. Fodd bynnag, roedd y ffigurau yn 93% ar gyfer pobl heb anghenion gofal a chymorth a 92% ar gyfer y rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21, ond mae canlyniadau 2022-23 yn uwch na'r rhai a adroddwyd yn 2018-19 ac yn gynharach. Yn 2018-19, dywedodd y mwyafrif o bobl a dderbyniodd ofal a chymorth a gofalwyr a dderbyniodd gymorth eu bod yn teimlo'n ddiogel – 80% ac 86% yn y drefn honno. Fodd bynnag, o edrych ymhellach yn ôl gwelir bod pobl wedi nodi lefelau uwch o deimlo'n ddiogel.

### 22. Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol

Mae'n bwysig ein bod yn amddiffyn plant sy'n parhau i fod mewn perygl. Er enghraifft, pan fydd plentyn mewn perygl o broblemau diogelu dro ar ôl tro. Roedd 6.2% o blant a gafodd eu rhoi ar gofrestrau amddiffyn plant awdurdodau lleol yn ystod 2021-22 wedi cael eu cofrestru o'r blaen yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae hyn yn is na'r 7.4% a adroddwyd yn 2020-21.




## 23. Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig

Mae mynd i'r afael â phob math o gamdriniaeth yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)** yn ategu hyn.

Yn 2021-22, roedd tua 89,700 o ddigwyddiadau a throseddau cam-drin domestig yng Nghymru, cynnydd o 10.9% ers 2019, fel y dangosir yn Ffigur 4.

Dylid darllen data cam-drin domestig a throseddau rhywiol gyda chafeat – gan ei bod yn hysbys nad yw cyfran uchel o droseddau'n cael eu hadrodd i'r Heddlu, ac y gall newidiadau mewn ffigurau a gofnodwyd adlewyrchu newidiadau mewn cyfraddau adrodd neu gofnodi yn hytrach na gwir nifer y digwyddiadau. Am y rhesymau hyn, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau yn y troseddau hyn.

**Ffigur 4: Nifer yr achosion o gam-drin domestig yng Nghymru, 2019-22.**




*Ffynhonnell:* ***Swyddfa Ystadegau Gwladol — Troseddau wedi'u cofnodi gan yr Heddlu***


## 24. Nifer y troseddau rhywiol

Mae mynd i'r afael â phob math o drais rhywiol yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn ategu hyn. Yn 2023, cofnodwyd 10,072 o droseddau rhywiol yng Nghymru. Mae hyn yn uwch na'r hyn a gofnodwyd yn 2022, pan gofnodwyd 9,914 o droseddau rhywiol.

Yn 2021, cofnodwyd 7,419 o droseddau rhywiol yng Nghymru. Rhwng 2018 a 2020, cynyddodd nifer y troseddau rhywiol yn gyson, fel y dangosir yn Ffigur 5. Yn debyg i gam-drin domestig, gostyngodd nifer yr achosion o droseddau rhywiol a gofnodwyd yn 2021, ond, ers hynny, yn gyffredinol mae nifer yr achosion wedi cynyddu'n gyson dros amser.

---

**Ffigur 5: Nifer yr achosion o droseddau rhywiol yng Nghymru, 2019-23.**




*Ffynhonnell:* ***Swyddfa Ystadegau Gwladol — Troseddau wedi'u cofnodi gan yr Heddlu***

Noder, mae'r adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn yn darparu data troseddau rhywiol mewn blynyddoedd calendr. Roedd adroddiadau blaenorol yn adrodd ar sail y flwyddyn a oedd yn dod i ben ar 31 Mawrth.

### 25. Canran yr oedolion sydd mewn perygl o ddioddef camdriniaeth neu esgeulustod sy'n cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cryfhau'r trefniadau diogelu presennol. Mae wedi cyflwyno dyletswydd ar asiantaethau, fel y GIG, i adrodd am sefyllfaoedd lle mae oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso. Bydd rhai oedolion yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol fwy nag unwaith. Gall hyn fod ar gyfer yr un categorïau neu gategorïau gwahanol o gamdriniaeth.

Yn 2021-22, roedd 15,950 o oedolion mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn; cafodd 12.6% eu hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod tra bod 15.8% wedi'u hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer categori gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Er bod cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso wedi cynyddu rhwng 2020-21 a 2021-22, gostyngodd canran y rhai a atgyfeiriwyd fwy nag unwaith mewn blwyddyn. Yn 2020-21, roedd 15,301 o oedolion mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn; o'r rhain, atgyfeiriwyd 14.8% fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod tra bod 19.8% wedi'u hatgyfeirio fwy nag unwaith ar gyfer categori gwahanol o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae hyn yn debyg i'r blynyddoedd cofnodi blaenorol. Yn 2018-19, amheuwyd bod 14,938 o oedolion mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso yn ystod y flwyddyn adrodd, atgyfeiriwyd 14.9% fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod a 21.9% ar gyfer gwahanol gategorïau o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2019-20 oherwydd COVID-19.



# Addysg, hyfforddiant a hamdden

Mae dysgu a gwneud pethau sy'n bwysig i bobl yn ganlyniadau llesiant pwysig. Mae hyn yn wir i bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac i ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn. Mae plant angen meithrin sgiliau i'w helpu i gyflawni eu potensial addysgol. Gall hyn gynnwys mynd ymlaen i addysg bellach neu addysg uwch. Fel oedolion, mae diffyg sgiliau addysgol sylfaenol yn gallu effeithio ar fywydau bob dydd pobl. Mae angen sgiliau fel darllen, ysgrifennu a rhifedd i ddeall ffurflenni a biliau.

Nid yw dysgu'n gyfyngedig i blant a'u haddysg. Mae dysgu a hyfforddiant i oedolion yn caniatáu i bobl ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ymhellach. Gall hyn roi ymdeimlad o annibyniaeth i bobl a gwella hyder. Gall wella gallu person i gael a chadw swydd hefyd. Mae cael incwm rheolaidd ac osgoi tlodi'n gallu cael effaith gadarnhaol ar lesiant.



## Dangosyddion Canlyniadau

**26.** **Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw**

**27.** **Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 i blant sy'n derbyn gofal**

**28.** **Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i blant sy'n derbyn gofal a chymorth**

**29.** **Cyfraddau presenoldeb ysgol plant sy'n derbyn gofal**

**30.** **Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned**

**31.** **Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster**

**32.** **Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen**

**33.** **Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal**

### 26. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw

Rhaid i bobl allu cyflawni eu canlyniadau llesiant personol eu hunain. Rhaid iddyn nhw barhau i wneud yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw hefyd. Mae hyn yn sicrhau annibyniaeth i bobl. Dylai gwasanaethau ystyried amgylchiadau unigol pobl. Pobl sy'n gwybod beth sydd orau iddyn nhw. Dylai gwasanaethau ystyried eu barn, eu dymuniadau, a'u teimladau.

Yn 2022-23, dywedodd 60% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mewn cymhariaeth, dywedodd 86% o bobl nad oes ganddyn nhw anghenion gofal a chymorth ac 86% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Yn ddiddorol, dywedodd 77% o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw; sy'n is na'r hyn a adroddwyd gan ofalwyr di-dâl.

Nid oes data ar gael ar gyfer 2020-21.

### 27. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 i blant sy'n derbyn gofal

Gyda chyflwyno'r **Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022** ymlaen, mae'r casgliad o asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi dod i ben. Felly, mae'r mesur hwn wedi'i ddiwygio i gasglu canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 yn lle hynny. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cael eu diweddaru yn unol â'r data a gesglir ar gyfer y cwricwlwm newydd.

Cafodd y casgliad data asesiadau athrawon Cyfnod Allweddol 3 ei atal yn 2020 a 2021 oherwydd pandemig y Coronafeirws (COVID-19); bydd y casgliad data yn ailddechrau yn haf 2022.

### 28. Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i blant sy'n derbyn gofal a chymorth

Oherwydd canslo'r cyfnod arholiadau arferol yn 2019-20 a 2020-21 a'r tarfu parhaus ar ysgolion o ganlyniad i bandemig COVID-19, ni chyfrifwyd mesurau perfformiad ar gyfer Blwyddyn 11 a charfannau chweched dosbarth. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn darparu data wedi'u diweddaru yn unol â'r data a gesglir ar gyfer y cwricwlwm newydd.

## 29. Cyfraddau presenoldeb ysgol plant sy'n derbyn gofal

Mae presenoldeb yn yr ysgol yn gallu cael effaith sylweddol ar gyrhaeddiad deilliannau addysgol ymysg plant. Roedd datganiadau blaenorol yn darparu cyfraddau presenoldeb ysgol i blant sy'n derbyn gofal a chymorth, fodd bynnag, rydym yn darparu ffigurau erbyn hyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unig. Ni chasglwyd data ynghylch presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol ar gyfer 2020 na 2021. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn darparu data wedi'u diweddaru.

Nid yw'r ystadegau cenedlaethol ar bresenoldeb ar gael yn 2019, 2020 na 2021.

## 30. Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned

Mae darparwyr dysgu ym mhob sector yn hollbwysig i wella safonau addysg. Mae'r dangosydd hwn yn edrych ar gyfran y dysgwyr sy'n cyflawni cymwysterau. Mae'n cynnwys addysg gyffredinol, addysg alwedigaethol, dysgu oedolion a phrentisiaethau.

Oherwydd COVID-19, ni ellir darparu unrhyw ddata ar gyfer 2019-20 na 2020-21. Felly, bydd data 2021-22 yn cael eu cymharu yn erbyn canlyniadau cyn y pandemig yn 2018-19.

Mae cyfraddau cyflawni deilliannau galwedigaethol, prentisiaethau a dysgu oedolion yn cael eu cyfrifo gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer o ddeilliannau cyflawniad addysg gyffredinol. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio canran y dysgwyr ar y pwynt 8 wythnos sy'n mynd ymlaen i gyflawni 3 neu ragor o gymwysterau Safon Uwch ar raddau A* i E, fel yr un mwyaf tebyg i gyfraddau cyflawni mewn llwybrau addysgol eraill.

Bu cynnydd yn y cyfraddau cyflawni ar gyfer addysg gyffredinol rhwng 2018-19 a 2021-22 o 65% i 75%. Ar y llaw arall, bu gostyngiadau yn y cyfraddau cyflawni ar gyfer dysgu oedolion, dysgu galwedigaethol a phrentisiaethau:

- Gostyngodd y cyfraddau ar gyfer dysgu oedolion o 90% yn 2018-19 i 82% yn 2021-22.
- Gostyngodd y cyfraddau ar gyfer dysgu galwedigaethol o 81% yn 2018-19 i 74% yn 2021-22.
- Gostyngodd y cyfraddau ar gyfer prentisiaethau o 81% yn 2018-19 i 66% yn 2021-22.

## 31. Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster

Gall cymwysterau addysgol effeithio ar allu'r unigolyn i gael a chadw swydd. Mae swydd yn helpu llesiant gan ei bod yn gwella gallu'r unigolyn i gael incwm rheolaidd.

Cafodd y fframwaith rheoleiddio a oedd yn cefnogi Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs) ei dynnu'n ôl yn 2015 a'i ddisodli gan y Fframwaith Cymwysterau a Reoleiddir (RQF), felly mae amcangyfrifon cymwysterau wedi'u disodli gan amcangyfrifon ar sail RQF.

Yn fwyaf diweddar, yn 2022, roedd gan 95% o bobl economaidd weithgar rhwng 16 a 64 oed o leiaf un cymhwyster ar lefel TGAU neu gyfwerth neu uwch.

Bu cynnydd araf, ond cyson, yng nghanran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster. Yn 2021, roedd gan 94.7% o bobl economaidd weithgar rhwng 16 a 64 oed o leiaf un cymhwyster ar lefel TGAU neu gyfwerth neu uwch, ac yn 2018 roedd hyn yn 94.4%.

## 32. Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen

Gyda chyflwyno'r **Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022** ymlaen, mae'r casgliad o asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 wedi dod i ben. Felly, mae Mesur 27 wedi'i ddiwygio i gasglu canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 yn lle hynny.

Nid yw'r mesur hwn yn cael ei gasglu mwyach ac felly mae wedi dod i ben. Ni fydd y mesur hwn yn ymddangos mewn adroddiadau yn y dyfodol.

## 33. Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal

Roedd y mesur hwn yn arfer bod yn 'Sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw leoliad dysgu a gynhelir gan awdurdod lleol'. Mae'r broses o gasglu data a ddefnyddir gan y mesur hwn wedi dod i ben. Felly, mae'r mesur hwn wedi'i ddiwygio i edrych ar ganran y rhai sy'n gadael gofal sy'n ymgysylltu â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal. Mae'r mesur hwn yn edrych yn benodol ar **Ymadawyr gofal categorïau 2, 3 a 4**.

Yn 2021, roedd 529 o ymadawyr gofal categori 2, 3 neu 4 yng Nghymru. Cwblhaodd 74.1% o'r rhain o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal.




# Perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol

Mae meddu ar rwydweithiau cymdeithasol cryf, teulu a ffrindiau yn gallu lleihau unysigrwydd cymdeithasol. Mae hyn yn wir am bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac am ofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Mae ymdeimlad o berthyn i gymuned yn gallu gwella hyder a hunanwerth pobl. Gall leihau teimladau o unysigrwydd hefyd drwy ganiatáu i bobl ymwneud â'i gilydd.

Canran y bobl a adroddodd am unigrwydd.



## Dangosyddion Canlyniadau

**34.** **Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn emosiynol ac yn gymdeithasol yn gyffredinol**

**35.** **Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd**

**36.** **Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol**

**37.** **Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda**

### 34. Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn emosiynol ac yn gymdeithasol yn gyffredinol

Gall unigrwydd emosiynol a chymdeithasol effeithio ar lesiant rhywun. Mae'n gallu effeithio ar iechyd, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch. Gall gynyddu'r risg o farwolaeth a datblygu rhai clefydau. Gall ddylanwadu ar adferiad hefyd os bydd rhywun yn mynd yn sâl.

Yn 2022-23, y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a nododd y lefelau uchaf o unigrwydd emosiynol a chymdeithasol cyffredinol (39%) tra mai dim ond 16% o ofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth a ddywedodd eu bod yn teimlo'n unig. Roedd y rhai nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth a'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr yn teimlo'n llai unig (11% a 12% yn y drefn honno).

Mae'r canlyniadau hyn yn debyg i'r rhai a welwyd yn 2020-21, lle nododd 34% o'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth, 16% o ofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth, 12% o'r rhai nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth ac 13% o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr eu bod yn teimlo'n unig.

Mae hyn yn golygu er bod unigrwydd wedi aros yn weddol sefydlog i'r mwyafrif o bobl, mae'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth yn adrodd lefelau uwch o unigrwydd.

### 35. Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd

Mae teimlo'n ddiogel, cymryd rhan a chyfrannu at y gymuned leol yn helpu i sicrhau llesiant pobl. Mae pobl yn fwy tebygol o wneud hyn os ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu parchu gan deulu, ffrindiau a gwasanaethau.

Yn 2020-21, roedd y rhan fwyaf o bobl yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd. Y rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a oedd â'r gyfran isaf, sef 77%, tra'r oedd 87% o ofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth a 90% o'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth, neu'r rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr, yn cytuno bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

O'i gymharu â 2020-21, roedd mwy o bobl yn 2022-23 yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth. Yn flaenorol, roedd 75% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac 84% o ofalwyr sy'n derbyn cymorth, a'r rhai nad oedden nhw'n derbyn gofal na chymorth, neu'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.

Yn 2018-19, roedd 75% o ofalwyr a oedd yn derbyn cymorth yn credu bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd o'i gymharu â phobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth (71%). Roedd yr un gyfran o bobl nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth a gofalwyr a oedd yn derbyn cymorth yn credu bod pobl yn eu hardal yn parchu ei gilydd – 76% yn achos y naill a'r llall.

### 36. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-23, felly nid yw wedi'i ddiweddaru. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Yn 2020-21, cytunodd 88% o ofalwyr eu bod yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol, mwy nag unrhyw grŵp arall. Mae hyn yn cymharu ag 83% o bobl nad oedden nhw'n ofalwyr, 80% o bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth, ac 83% o bobl nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth.

### 37. Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Ni chafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2022-23, felly nid yw wedi'i ddiweddaru. Bydd diweddariadau'n cael eu darparu mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Roedd dros dair rhan o bump o bob grŵp yn meddwl bod eu hardal leol yn rhywle lle'r oedd pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn 2020-21. Gofalwyr oedd yn teimlo fwyaf cadarnhaol am hyn, gyda 71% yn cytuno. Roedd 69% o'r rhai nad ydyn nhw'n ofalwyr yn cytuno. Pobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth oedd leiaf positif, gyda 63% yn cytuno bod eu hardal leol yn fan lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, o'i gymharu â 69% o bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth.




# Y cyfraniad a wneir i gymdeithas

Mae gallu ymgysylltu a gwneud cyfraniad i gymdeithas yn ganlyniadau llesiant allweddol. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu cymunedau ac yn y gymdeithas. Mae hyn yn wir am bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac am ofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Gall y canlyniadau hyn wneud i berson deimlo'n werth chweil. Yn ei dro, gall hyn helpu pobl i gymryd gwell gofal o'u hiechyd corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae ymdeimlad isel o werth yn gallu effeithio ar lesiant. Mae'n gallu effeithio ar iechyd meddwl a sut mae pobl yn ymwneud â ffrindiau a theulu.

**Canran y bobl a oedd yn teimlo bod y pethau yr oedden nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil.**



## Dangosyddion Canlyniadau

**38. Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil**

**39. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli**

**40. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc**

**41. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl**

### 38. Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil

Mae ymdeimlad o fod yn werth chweil a chael eich gwerthfawrogi gan eraill yn gallu hybu llesiant. Gall ymdeimlad o fod yn werth chweil helpu pobl i ofalu am eu hiechyd yn well. Gall helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau llesiant hefyd.

Roedd 63% o bobl a oedd yn derbyn gofal a chymorth yn 2022-23 yn credu bod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil, sydd cryn dipyn yn is na phobl nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth (85%), gofalwyr di-dâl a oedd yn derbyn cymorth (85%), a'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr (84%). Mae hyn yn ganlyniad tebyg i 2020-21, lle'r oedd 64% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth, 84% o bobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth, ac 83% o ofalwyr sy'n derbyn cymorth a phobl nad oedden nhw'n ofalwyr yn teimlo bod y pethau yr oedden nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil.

### 39. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli

Mae gwirfoddoli'n ffordd i bobl allu cymryd rhan yn eu cymuned leol a chyfrannu ati. Gall gwirfoddoli ddod â llawer o fanteision i bobl. Gall y rhain gynnwys datblygu sgiliau newydd, rhyngweithio cymdeithasol a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Yn 2022-23, adroddwyd bod 27% o bobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn gwirfoddoli, yn ffurfiol neu'n anffurfiol.

Mae hyn yn is na'r ffigur ar gyfer y rhai nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth, sef 30% a'r ffigur ar gyfer pobl nad ydyn nhw'n ofalwyr, sef 29%. Pobl sy'n derbyn cymorth fel gofalwyr di-dâl oedd â'r lefelau uchaf o wirfoddoli, sef 39%.

### 40. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc

Nod sefydliadau gwirfoddol yw cynorthwyo unigolion. Gallan nhw gynnwys elusennau cofrestredig, cymdeithasau tai, undebau credyd, cwmnïau buddiannau cymunedol, ymddiriedolaethau a grwpiau cymunedol lleol.

Mae gweithgareddau i'r gymuned yn gallu cynnwys grwpiau sy'n gweithio i adfywio cymunedau, neu wella mynediad at wasanaethau. Gallan nhw gynnwys cylchlythyrau cymunedol a rhaglenni datblygu hefyd. Gweithgareddau i bobl ifanc yw grwpiau sy'n cynnwys pobl ifanc. Gallan nhw gynnwys canolfannau ieuenctid, clybiau, sefydliadau mewn lifrai, chwaraeon a grwpiau diwylliannol.

Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 22.48% o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn cynnig gweithgareddau i'r gymuned a 4.61% yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc. Mae hyn yn debyg iawn, ond ychydig yn uwch na mis Gorffennaf 2022, lle'r oedd 22.4% o sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru yn cynnig gweithgareddau i'r gymuned a 4.53% yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc.

Noder, ciplun o ddata mis Gorffennaf 2023 yw hwn, felly efallai na fydd yn adlewyrchu'r data a gedwir gan CGGC ar adegau eraill.

## 41. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i bobl anabl

Gall y sector gwirfoddol gynnig ffyrdd arloesol o ymateb i dair her y mae gofal cymdeithasol yn eu hwynebu: cynnydd yn y galw; arian yn lleihau; a newid mewn disgwyliadau.

Ym mis Gorffennaf 2023, roedd 2.95% o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i bobl anabl. Mae hyn ychydig yn is na'r ffigur ym mis Gorffennaf 2022, lle'r oedd 3.04% o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig gweithgareddau i bobl anabl.

Ciplun o ddata mis Gorffennaf 2022 yw hwn, felly efallai na fydd yn adlewyrchu'r data a gedwir gan CGGC ar adegau eraill.

# Llesiant cymdeithasol ac economaidd

Mae statws cymdeithasol ac economaidd pobl yn gallu effeithio ar eu llesiant. Mae hyn yn wir am bobl sy'n cael gofal a chymorth ac am ofalwyr di-dâl sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn cydnabod hyn.

Mae swydd sicr o safon yn hollbwysig i lesiant economaidd, corfforol a meddyliol pobl.

Mae cyfraddau cyflogaeth uchel yn hanfodol i godi safonau byw. Maen nhw'n helpu i leihau anghydraddoldeb a thlodi hefyd. Efallai y bydd rhai pobl yn wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Gall rhwystrau gynnwys problemau iechyd neu ddiffyg sgiliau. Bydd cael gwared ar rwystrau a helpu pobl i aros mewn gwaith o fudd i lesiant pobl. Byddan nhw'n cael yr un mynediad at wasanaethau a chyfleoedd ag eraill. Bydd pobl yn gallu cyfrannu'n llawn at gymdeithas. Bydd hyn yn eu helpu i fyw bywydau mor iach, annibynnol, a boddhaus â phosibl.


Gall amodau cymdeithasol ac economaidd ardal effeithio ar lesiant hefyd. Er enghraifft, mae plant sydd angen gofal a/neu gymorth yn fwy tebygol o fyw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru.

**Canran y bobl sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb a oedd mewn cyflogaeth.**





**Canran y bobl a oedd mewn amddifadedd materol.**

**Pobl sy'n derbyn gofal a chymorth**




**Pobl nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth neu bobl nad ydyn nhw'n ofalwyr**



## Dangosyddion Canlyniadau

42. Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn
43. Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb
45. Canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)
46. Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol

### 42. Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn

Gall pobl hŷn wynebu rhwystrau i gyflogaeth. Er enghraifft, problemau iechyd neu ddiffyg sgiliau perthnasol. Mae helpu pobl hŷn i aros mewn gwaith yn sicrhau eu bod yn gallu cyfrannu'n llawn at gymdeithas. Gall aros mewn gwaith helpu pobl i fyw bywydau iach, annibynnol, a boddhaus.

Yn 2022, roedd 37.4% o oedolion 50 oed a hŷn mewn gwaith. Mae cyfradd cyflogaeth oedolion dros 50 oed wedi bod yn gostwng yn raddol dros y tair blynedd diwethaf, i lawr o 38.5% yn 2021, 39.0% yn 2020 a 39.4% yn 2019.

Cynhaliodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol astudiaeth i'r **rhesymau pam y mae gweithwyr dros 50 oed yn gadael cyflogaeth ers dechrau panedmig y coronafeirws**. Adroddon nhw fod pobl sy'n dioddef o salwch hirdymor a myfyrwyr yn gyfrifol am y cynnydd mewn anweithgarwch economaidd. Yn 2022, **roedd y gyfradd absenoldeb salwch ar gyfer y rhai â chyflyrau iechyd hirdymor yn 4.9%**, sef ei phwynt uchaf ers 2008 pan oedd yn 5.1%.

### 43. Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb

Mae pobl ag anabledd craidd o dan y Ddeddf Gydraddoldeb yn cael eu diffinio fel pobl ag anableddau sy'n bodloni'r diffiniad o 'anabl' yn **Neddf Cydraddoldeb 2010**.

Mae ymatebwyr i'r **Arolygon Poblogaeth** a **Llafurlu Blynyddol** yn cael eu diffinio fel rhai ag 'anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio' os ydyn nhw wedi ateb bod ganddyn nhw gyflwr neu salwch corfforol neu feddyliol sy'n para neu y disgwylir iddo bara 12 mis neu fwy, a bod y cyflwr neu'r salwch hwn yn lleihau eu gallu i gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd i raddau helaeth.

Mae swydd sicr o safon yn hollbwysig i lesiant economaidd, corfforol, a meddyliol pobl. Bydd cael gwared ar rwystrau gwaith i bobl anabl yn helpu i leihau anghydraddoldebau.


Yn 2022, roedd 50.4% o bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb mewn cyflogaeth. Mae'r canlyniad hwn yn awgrymu bod lefelau cyflogaeth wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig, lle'r oedd yn 50.5% yn 2019. Yn 2020 a 2021, roedd canran y bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb mewn cyflogaeth yn is, sef 49.3% a 48.9% yn y drefn honno.

## 45. Canran y bobl ifanc 19 i 24 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Mae hyfforddiant, addysg, neu gyflogaeth yn bwysig i oedolion ifanc 19-24 oed. Os nad yw oedolyn ifanc mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, gall hyn effeithio ar ei lesiant a'r gymdeithas yn ehangach. Gall arwain at gynnydd mewn problemau iechyd cyffredinol neu gyfraddau troseddu.

Mae Ffigur 6 yn dangos, ar ddiwedd 2021, bod 16.3% o bobl ifanc 19 i 24 oed yng Nghymru yn NEET; mae hyn yn cymharu ag 15.8% yn 2020 ac 16% yn 2018. Mae hyn yn awgrymu cynnydd bach yn nifer y bobl ifanc NEET ers 2016.

**Ffigur 6: Canran y bobl ifanc 19-24 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth, na hyfforddiant (NEET) rhwng 2010 a 2021.**




*Ffynhonnell:* ***Datganiad Ystadegol Llywodraeth Cymru***

## 46. Canran yr aelwydydd sy'n wynebu amddifadedd materol

Diffinnir aelwyd sy'n wynebu amddifadedd materol fel un sy'n methu fforddio rhai pethau. Er enghraifft, cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, cael gwyliau unwaith y flwyddyn, a chysylltiad â'r rhyngrwyd.

Yn 2022-23, roedd 31% o'r rhai a oedd yn derbyn gofal a chymorth mewn amddifadedd materol. Mae hyn yn uwch nag unrhyw grŵp arall, hyd yn oed gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, lle'r oedd 18% mewn amddifadedd materol. Dim ond 15% o'r rhai nad oedden nhw'n derbyn gofal a chymorth neu bobl nad ydyn nhw'n ofalwyr oedd mewn amddifadedd materol.

Nid oedd data ar gyfer 2020-21 ar gael.

# Addasrwydd llety preswyl

Mae byw mewn llety diogel, boddhaol, a phriodol yn gallu effeithio ar lesiant. Mae hyn yn wir am bobl sy'n derbyn gofal a chymorth ac am ofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r datganiad llesiant yn adlewyrchu hyn.

Mae amodau byw gwael a gorlenwi'n gallu cael effaith negyddol ar lesiant. Gall arwain at lesiant corfforol a meddyliol gwael. Gall effeithio ar ddysgu a datblygiad plant hefyd.


Yn aml, mae angen dulliau wedi'u targedu i sicrhau bod gofal cymdeithasol i bobl sy'n profi digartrefedd ar gael, yn hygyrch, ac yn cael ei ddarparu i'r un safonau ac ansawdd ag ar gyfer y boblogaeth gyffredinol.

Mae angen i wasanaethau gydweithio er mwyn sicrhau bod llety preswyl yn addas. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal a chymorth, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

---

**Roedd yr holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (gan gynnwys methiannau derbyniol).**

**2021/ 2022**



## Dangosyddion Canlyniadau

47. **Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety'n addas i'w hanghenion**
48. **Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol**
49. **Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth tai**
50. **Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru**

### 47. Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety'n addas i'w hanghenion

Yn 2022-23, 89% o'r rhai sy'n derbyn gofal a chymorth a ddywedodd fod eu llety'n addas ar gyfer eu hanghenion, o'i gymharu â 92% o'r rhai nad ydyn nhw'n derbyn gofal a chymorth. O ran gofalwyr di-dâl sy'n derbyn cymorth, roedd 92% yn teimlo bod eu llety'n addas ar gyfer eu hanghenion, o'i gymharu â 90% o'r rhai nad oedden nhw'n ofalwyr.

Nid oedd data ar gael ar gyfer 2020-21.

### 48. Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol

Mae llawer o ffactorau personol a chymdeithasol gwahanol yn gallu cyfrannu at sefyllfa lle mae pobl yn dod yn ddigartref. Gall achosi aflonyddwch a thrawma aruthrol i unrhyw un sy'n profi hyn. Mae plant yn arbennig o agored i niwed, gan golli ysgol yn aml.

Nid yw'r ffigur hwn wedi'i ddiweddaru gan na chasglwyd data oherwydd COVID. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys data wedi'u diweddaru. Mae'r data ar gyfer blynyddoedd blaenorol i'w gweld yn **adroddiad Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol 2021**.

### 49. Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth tai

Mae'r trydydd sector yn ategu gwasanaethau statudol. Maen nhw'n darparu gwasanaethau er budd pobl a chymunedau yng Nghymru. Maen nhw'n rhoi cymorth, gan alluogi pobl i gynorthwyo eu hunain, lle bo hynny'n briodol.

Ym mis Gorffennaf 2023, mae 1.34% o sefydliadau gwirfoddol yn cynnig cymorth tai, fel prosiectau digartrefedd, cynlluniau gofal ac atgyweirio, gwasanaethau cynghori tai a chymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr. Mae hyn yn debyg i fis Gorffennaf 2022, sef 1.36%.

Ciplun o ddata mis Gorffennaf 2022 yw hwn, felly efallai na fydd yn adlewyrchu'r data a gedwir gan CGGC ar adegau eraill.

### 50. Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru

Mae landlordiaid cymdeithasol yn darparu tai cymdeithasol. Maen nhw'n cynnwys cynghorau lleol a chymdeithasau tai. Sefydliadau nid-er-elw sy'n berchen ar dai rhent, yn eu gosod a'u rheoli yw cymdeithasau tai.

Mae ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru yn gallu effeithio ar lesiant. Cyhoeddwyd Safon Ansawdd Tai Cymru am y tro cyntaf yn 2002 ac fe'i diweddarwyd yn 2008. Ei nod yw helpu i sicrhau bod pob annedd o ansawdd da a'i bod yn addas ar gyfer anghenion pob preswylydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob landlord cymdeithasol yng Nghymru sicrhau bod ei gartrefi'n bodloni gofynion y Safon Ansawdd Tai.

Yn 2021-22, roedd 100% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Safon Ansawdd Tai, gan gynnwys methiannau derbyniol. Mae hyn yn dangos cyflawniad sylweddol o ran ansawdd tai cymdeithasol, o'i gymharu â'r sefyllfa ddeng mlynedd yn ôl, yn 2011-12, lle'r oedd 41.5% o'r holl stoc tai cymdeithasol yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Safon Ansawdd Tai, gan gynnwys methiannau derbyniol.

# Y camau nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu a diweddaru'r dangosyddion. Mae llawer o'r dangosyddion o dan y pennawd Addysg a Hyfforddiant wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, ac felly mae angen ailasesu'r dangosyddion hyn. Bydd data newydd ar gael dros y flwyddyn i ddod, ac felly mae'n bosibl y bydd newidiadau'n cael eu gwneud i'r dangosyddion i adlewyrchu hyn.

Mae Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn cynnig data ychwanegol. Gallwn ddefnyddio'r data hyn fel dangosyddion yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu hyn cyn y cyhoeddiad blynyddol nesaf. Gall hyn arwain at newidiadau i'r dangosyddion presennol a/neu gynnwys dangosyddion newydd.

Yn olaf, mae canllawiau newydd ar gyfer Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn cael eu cyhoeddi dros y chwe mis nesaf, a fydd yn newid sut mae awdurdodau lleol yn adrodd ar eu gwasanaethau.

Rhagwelir y bydd yr adroddiadau blynyddol newydd, ynghyd â'r Fframwaith Perfformiad a Gwella a'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol hwn, yn ffurfio cipolwg cynhwysfawr ar berfformiad a chanlyniadau gwasanaethau cymdeithasol.



# Atodiad A. Ffynonellau Data

## Rhestr lawn o ddangosyddion yn ôl rhif, ac os ydyn nhw wedi'u diweddaru

### Sicrhau hawliau a hawlogaethau

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Canran y bobl sy'n ystyried bod y gofal a'r cymorth maen nhw wedi'i dderbyn yn ardderchog neu'n dda | Ydyn |
| 2. | Canran y bobl sydd ag ansawdd bywyd gwell, diolch i gyfraniad eu gofal a chymorth | Ydyn |
| 3. | Canran y bobl sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin â pharch | Ydyn |
| 4. | Canran y bobl sy'n ystyried y bobl a roddodd help, gofal a chymorth iddyn nhw yn ardderchog neu'n dda | Ydyn |
| 5. | Canran y bobl a gafodd yr wybodaeth neu'r cyngor cywir pan oedd arnyn nhw ei angen | Ydyn |
| 6. | Canran y bobl sy'n dweud eu bod nhw'n gallu rheoli eu bywyd beunyddiol gymaint ag y gallan nhw | Ydyn |
| 7. | Canran y bobl a oedd yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a'u cymorth | Ydyn |
| 8. | Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau plant a gweithgareddau lles i deuluoedd | Ydyn |
| 9. | Canran yr oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth sy'n derbyn taliadau uniongyrchol | Ydyn |

### Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol

| | | |
|---|---|---|
| 10. | Canran y bobl sydd â sgoriau hapusrwydd uchel | Ydyn |
| 11. | Canran y bobl sydd â sgoriau uchel o ran boddhad â bywyd | Ydyn |
| 12. | Canran y bobl sydd â llesiant meddyliol uchel | Ydyn |
| 13. | Canran yr oedolion (16 oed neu hŷn) sydd â dau neu ragor o ymddygiadau ffordd iach o fyw | Gweler yr adran Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 14. | Canran y genedigaethau byw, unig-anedig, sydd â phwysau geni o lai na 2,500 gram | Gweler yr adran Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 15. | Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd â phroblemau iechyd meddwl | Ydyn |
| 16. | Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf | Ydyn |

| Iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol (parhad) | | |
|---|---|---|
| 17. | Canran y plant 5 oed a hŷn sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cael yr archwiliadau deintyddol diweddaraf | Ydyn |
| 18 | Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth | Gweler yr adran Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 19 | Nifer y bobl hŷn sy'n torri eu clun | Gweler yr adran Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 20 | Canran y bobl sy'n dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn | Ydyn |

| Amddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod | | |
|---|---|---|
| 21 | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel | Ydyn |
| 22 | Canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant awdurdod lleol | Ydyn |
| 23 | Nifer y digwyddiadau o gam-drin domestig | Ydyn |
| 24 | Nifer y troseddau rhywiol | Ydyn |
| 25 | Canran yr oedolion sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod sydd wedi cael eu hatgyfeirio fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn | Ydyn |

| Addysg, hyfforddiant a hamdden | | |
|---|---|---|
| 26 | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu gwneud y pethau sy'n bwysig iddyn nhw | Ydyn |
| 27 | Canlyniadau Cyfnod Allweddol 2 i blant sy'n derbyn gofal a chymorth | Dod i ben |
| 27 | DIWYGIWYD: Canlyniadau Cyfnod Allweddol 3 i blant sy'n derbyn gofal a chymorth | Naddo |
| 28 | Canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i blant sy'n derbyn gofal a chymorth | Naddo |
| 29 | Cyfraddau presenoldeb ysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | Naddo |
| 30 | Deilliannau dysgwyr yn y sectorau addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned | Ydyn |
| 31 | Canran yr oedolion 16-64 oed sydd ag o leiaf un cymhwyster | Ydyn |
| 32 | Canran y plant sy'n derbyn gofal a chymorth sydd wedi cyflawni'r lefel ddysgu ddisgwyliedig, neu uwch, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | Dod i ben |

| Addysg, hyfforddiant a hamdden (parhad) | | |
|---|---|---|
| 33 | Y sgôr pwyntiau cymwysterau allanol cyfartalog ar gyfer plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefydliad addysg a gynhelir gan awdurdod addysg lleol | Dod i ben |
| 34 | DIWYGIWYD: Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi cwblhau o leiaf 3 mis yn olynol o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn y 12 mis ers gadael gofal | Ydyn |

| Domestig, teulu a phersonol | | |
|---|---|---|
| 35 | Canran y bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn emosiynol ac yn gymdeithasol yn gyffredinol | Ydyn |
| 36 | Canran y bobl sy'n meddwl bod pobl yn eu hardal leol yn parchu ac yn ystyried ei gilydd | Ydyn |
| 37 | Canran y bobl sy'n teimlo eu bod nhw'n perthyn i'w hardal leol | Naddo |
| 38 | Canran y bobl sy'n teimlo bod eu hardal leol yn rhywle lle mae pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda | Naddo |

| Y cyfraniad a wneir i gymdeithas | | |
|---|---|---|
| 39 | Canran y bobl sy'n dweud bod y pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil | Ydyn |
| 40 | Canran y bobl sy'n gwirfoddoli | Ydyn |
| 41 | Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau i'r gymuned neu i bobl ifanc | Ydyn |
| 42 | Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig cymorth i bobl anabl | Ydyn |

| Llesiant cymdeithasol ac economaidd | | |
|---|---|---|
| 43 | Cyfradd cyflogaeth oedolion 50 oed a hŷn | Ydyn |
| 44 | Cyfradd cyflogaeth oedolion sydd rhwng 16 a 64 oed ac sydd ag anabledd craidd neu anabledd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb | Ydyn |
| 45 | Bwlch o ran disgwyliad oes rhwng y rhai lleiaf difreintiedig a'r mwyaf difreintiedig | Gweler yr adran Cydgyfrifoldeb Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| 46 | Pobl ifanc 19 i 24 oed nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | Ydyn |
| 47 | Canran yr aelwydydd ag amddifadedd materol | Ydyn |

| Addasrwydd llety preswyl | | |
|---|---|---|
| 48 | Canran y bobl sy'n dweud bod eu llety yn addas i'w hanghenion | Ydyn |
| 49 | Canran yr aelwydydd digartref sy'n cynnwys plant dibynnol | Naddo |
| 50 | Canran y sefydliadau gwirfoddol sy'n cynnig gweithgareddau tai | Ydyn |
| 51 | Canran y tai cymdeithasol sy'n cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru | Ydyn |